3. Coed y Bedw

Pentyrch, Ceardydd

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 151 yr A.O. Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr; Prif fynedfeydd: ST109825 a ST116828, Canolfan y Safle: ST111827
Statws	Mae'r warchodfa wedi'i dynode yn SoDdGA.
Daliadaeth	Yn cael ei phrydlesu gan y Comisiwn Coedwigaeth ers 1968, a phrynu'r rhydd-ddaliadaeth yn 1984, gyda chymorth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Cronfa Goffa Joseph Frazier, Dr Mary Gillham, Gwylwyr Morgannwg, yr NHMF, yr NCC, Cyngor Cymuned Pentyrch, yr Awdurdod Dŵr a'r CFEN.
Maint	16.6 he (41 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	3 km i'r gogledd orllewin o Gaerdydd. Gellir cyrraedd y warchodfa o'r dwyrain drwy gyffordd Ffynnon Taf ar briffodd yr A470 o Gaerdydd i Ferthyr Tudful i'r gogledd o'r M4. Dilynwch Heol Pentyrch dros Bont yr Ynys a throwch i'r dde i Heol Berri Green, Gwaelod-y-Garth. O'r gorllewin drwy Heol Llantrisant (A4119) ac yna'r ffyrdd bychain i Bentyrch. Mae'r gofod parcio yn brin. Gall y llwybrau troed fod yn fwdlyd a cheir rhai stepiau a chamfeydd.
Cludiant cyhoeddus	Bws rhif 136 o Gaerdydd i Waelod-y-Garth.

Disgrifiad: Coetir llydanddail hynafol wedi'i lleoli ar draws terfyn rhwng priddoedd asidig a chalchaidd. Mae Coed y Bedw'n cynnwys mathau amrywiol o goetir. Mae llawer o'r safle ar lethr serth yn wynebu'r gogledd, gan ddilyn Gwythiennau Glo Mynydd y Garth a Chalchfaen Carbonifferaidd Garth Bychan. Mae coetir glwyb o goed Gwerni yng ngwaelod gwlypach y cwm yn graddio drwy'r coetir collddail Derw / Bedw cymysg ac yn troi'n goetir Ffawydd yn yr ardaloedd gogleddol a gorllewinol. Mae coetir o Ynn cymysg yn amlycach na dim yn lleol, yn yr ardaloedd calchfaen i'r de.

Mae dwy ffynnon gyfoethog mewn calch yn codi yn ne orllewin y safle ac yn ymuno â Nant Cwmllwydrew, sy'n nant asidig yn llifo tua'r dwyrain ar hyd llawr y cwm. Mae'r gymysgedd yma o ddwr asidig a chalchaidd yn y system ddraenio'n gartref i gasgliad diddorol o infertebrata, yn cynnwys yr Adain Siderog Fawr anghyffredin. Mae larfa'r creadur hwn yn datblygu yng nghloddiau llawn mwsogl y nentydd.

Ar waelod gwlyb llawr y cwm, ceir clystyrau o Farchrawn Mawr (4). Mae'r haen o brysgwydd yn cynnwys Gwerni, Rhafnwydd, Ysgaw'r Gors (6-7) a Chyll, tra bo'r haen o berlysiau wedi'i rhannu rhwng planhigion sy'n hoffi asid a chalch, gyda Straeon Teithwyr (7-9), Garlleg Gwyllt (4-6) a Phiswydd (6-7) i'w gweld yn tyfu yn y pridd calchaidd deheuol a Chlychau'r Gog (4-6), Briwydd y Rhostir (7-8) a Chribellau Cochion (4-7) yn y priddoedd asidig.

Ceir amrywiaeth eang o adar coetir yn byw yma, yn cynnwys y Dylluan Frech, Telor y Cnau, y Gnocell Fraith Fwyaf a'r Dringwr Bach, ac ychwanegir at y casgliad yma yn ystod yr haf gan bresenoldeb y Gwybedog Brith, y Tingoch, Telor yr Hesg a'r Telor Penddu.

Mae'r safle wedi newid oherwydd bod glo wedi ei gloddio yma yn y gorffennol. Ceir tystiolaeth o hyn o hyd, ac mae'n gyfrifol am lawer o'r topograffi anwastad. Yng ngogledd orllewin y warchodfa, mae'r siafft sy'n arwain i adfail glofa Coed y Bedw i'w weld, wedi'i adael yn segur ers 1913. Gwelir hefyd, gerllaw, adfeilion hen fwthyn, a fu'n gartref unwaith i Morgan Thomas, perchennog y lofa ar un adeg.



Nodau Rheoli: Gwarchod cymeriad ac amrywiaeth y coetir a'r nentydd. Cynnal a chadw ffensys y terfynau i atal defaid rhag pori ac i gynnal ac annog mynediad.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Mehefin	Blodau'r coetir
Ebrill - Gorffennaf	Magu adar a phryfed
Medi - Tachwedd	Ffwng